# BARDDONIAETH YN YR EISTEDDFOD

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Dylech ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae'r gweithgaredd wedi'i lunio yn unol â manylebau TGAU CBAC ar gyfer Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, a Dylunio a Thechnoleg (o 2026).

Mae dysgwyr yn archwilio barddoniaeth rhyfel drwy rai beirdd adnabyddus ac yn dadansoddi eu cerddi'n feirniadol, yn ogystal â gwaith Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans) a Mererid Hopwood. Maent yn ystyried gwrthdaro drwy brofiad personol a'r cyfryngau cyn awduro cerdd am wrthdaro. Mae dysgwyr yn ystyried dyluniad ac adeiladwaith Cadair y Bardd drwy edrych ar ddelweddau o gadeiriau o'r gorffennol. Maent yn defnyddio'r broses ddylunio i gynllunio Cadair y Bardd ar gyfer eu hardal leol ac yn adeiladu prototeip. Wrth wneud hyn, maent yn ymweld â'r ardal leol i gael ysbrydoliaeth, yn ystyried eu cyfrifoldebau cynaliadwyedd ac amgylcheddol, ac yn olaf yn gwerthuso eu prototeip.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLIRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gymryd ffotograffau, e.e. ffonau clyfar, tabledi, camerâu ac ati, wrth chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer dyluniad y gadair.
Deunyddiau a meddalwedd (fel y bo'n briodol) i ddylunio ac adeiladu prototeip o Gadair yr Eisteddfod.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is- deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BARDDONIAETH RHYFEL

**CBAC: TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.**

Ar ddechrau'r dasg, mae'r dysgwyr yn gwylio fideo dwyieithog ac yn gwrando ar Cyfandir o gofio by Ifor ap Glyn (bron i 9 munud) er mwyn ystyried yr awyrgylch, y naws a'u teimladau eu hunain.

Maent yn cynnal ymchwil ar y rhyngrwyd i ddod o hyd i farddoniaeth gan nifer o feirdd rhyfel, gan ystyried eu cerddi a dechrau datblygu eu sgiliau dadansoddi. Beirdd eraill a gynhwysir:

**Cynan (Albert Evans-Jones) (1895 – 1970)**

- Yn adnabyddus am 'Mab y Bwthyn'.
- Themâu: profiadau syml a diymhongar dyn ifanc o Gymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Dylanwad mawr ar foderneiddio'r Eisteddfod Genedlaethol.
- Mwy o fanylion:
    - Jones, Syr Cynan (Albert) Evans ('Cynan'; 1895 - 1970), bardd, dramodwr ac eisteddfodwr - Y Bywgraffiadur Cymreig
    - Cynan (bardd) - Wicipedia
    - Pan oedd Cynan yn sensora dramâu Cymraeg - BBC Cymru Fyw

**R. Williams Parry (1884 – 1956)**

- Yn adnabyddus am: 'Englynion coffa Hedd Wyn', 'Yr Haf', 'Pantycelyn', 'Mae hiraeth yn y môr', 'Cysur Henaint', 'Gadael Tir', 'Y Cantîn Gwlyb', 'Y Ddrafft'.
- Themâu: effaith emosiynol a chorfforol y Rhyfel Byd Cyntaf ar filwyr a'u teuluoedd.
- Dechreuodd fel bardd mesur caeth, symudodd at sonedau ond cafodd ei ddylanwadu'n ddiweddarach gan y beirdd Rhamantaidd.
- Mwy o fanylion:
    - Parry, Robert Williams (1884 - 1956), bardd, darlithydd prifysgol - Y Bywgraffiadur Cymreig
    - Robert Williams Parry - Wicipedia
    - R. Williams Parry – Cymru Bywyd - BBC Cymru

**Saunders Lewis (1893 – 1985)**

- Yn adnabyddus am: 'Y Dilyw 1939'.
- Themâu: myfyrdod teimladwy ar brofiadau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan fynd i'r afael â realiti creulon rhyfel, ei effaith ar ysbryd dynol, a'r frwydr dros ryddid a hunaniaeth.
- Ffurfiau barddonol yn y Gymraeg yn cynnwys mesurau caeth mewn cynghanedd megis cywyddau ac awdlau, yn ogystal â sonedau a phenillion eraill sy'n odli.

- Mwy o fanylion:
  - Saunders Lewis - Wicipedia
  - Saunders Lewis - BBC (Saesneg yn unig)
  - Lewis, John Saunders (1893-1985), gwleidydd, beirniad a dramodydd - Y Bywgraffiadur Cymreig
  - Blodeuwedd Saunders Lewis - CBAC

Dylai'r sgriniau sy'n son am Waldo Williams helpu dysgwyr i ystyried gwrthdaro o safbwynt gwahanol.

Mae dysgwyr yn ymchwilio i ddarganfod mwy am Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn). Mae ganddynt fynediad at fersiwn ddwyieithog ar-lein o Yr Arwr / The Hero os yw'n briodol iddynt ddarllen ei gerdd enwocaf. Ystyrir cerdd fyrrach gan Hedd Wyn ar y sgrin nesaf, Hedd Wyn (1887 – 1917) - Llenyddiaeth Cymru. Gofynnir i ddysgwyr ddadansoddi'r gerdd yn feirniadol.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am Hedd Wyn:

  - Hedd Wyn - Wicipedia
  - Yr Arwr, Hedd Wyn - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
  - Trosolwg - Hedd Wyn - Adnoddau - Hwb

Mererid Hopwood oedd y ferch gyntaf yn hanes yr Eisteddfod i ennill Cadair y Bardd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2001. Caiff ei chyflwyno ar y sgrin nesaf. Gallai trafodaeth ynghylch pam y cymerodd hi gymaint o amser i'r Eisteddfod ddyfarnu Cadair y Bardd i ferch, fod yn ddiddorol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am Mererid:

- Mererid Hopwood - Wicipedia
- Ethol y Prifardd a'r Prif Lenor Mererid Hopwood yn Archdderwydd - Eisteddfod

Mae dysgwyr yn gwrando ar un o gerddi Mererid: Ffordd lydan, ffordd gul, Mererid Hopwood (ychydig dros 2 funud) gyda PDF ar gael ar y sgrin. Gofynnir iddynt ddadansoddi'r gerdd ac ystyried rolau barddoniaeth rhyfel a barddoniaeth heddwch.

Ar y sgrin nesaf, gofynnir i ddysgwyr ystyried y datganiad 'Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles' o'r Cwricwlwm i Gymru. Yma, cyflwynir y syniad o ddatrys gwrthdaro.

Gan ddefnyddio profiad personol neu arsylwad o'r cyfryngau, gofynnir iddynt feddwl am wrthdaro y maent wedi'i brofi'n ddiweddar, naill ai'n bersonol neu yn y byd ehangach. Dylai trafod hyn gydag eraill arwain at ffyrdd o ddatrys gwrthdaro mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Yn rhan olaf y dasg, gwahoddir y dysgwyr i ysgrifennu cerdd ddienw am wrthdaro, gan gael eu harwain gan y meini prawf ar y sgrin. Gellid cael beirniadaeth o'r gerdd, o bosibl mewn Eisteddfod ysgol, a dewis enillydd.

TASG 2

# Y GADAIR

**CBAC: TGAU Dylunio a Thechnoleg.**

Mae dysgwyr yn ystyried y cysyniad o gael Cadair y Bardd, o ran ei gwerth a'i harwyddocâd mewn Eisteddfod. Gofynnir iddynt ystyried sut olwg sydd arni a braslunio eu syniadau.

Ar y sgrin nesaf, trafodir symbolau cyffredin a ddefnyddir wrth ddylunio Cadair y Bardd.

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar ddelweddau o Gadeiriau'r Bardd yn Casgliad y Werin Cymru. Yna, dylent ddewis tair cadair, pob un o ddegawd gwahanol, er mwyn eu cymharu o ran y symbolau a'r newidiadau yn y dyluniad dros y blynyddoedd.

Ar y sgrin nesaf, rhoddir rhagor o wybodaeth am elfennau dylunio, gan gynnwys lleoliad, nodweddion ac ysbrydoliaeth leol.

Cyflwynir y broses ddylunio drwy ofyn i'r dysgwyr ddechrau meddwl sut y byddant yn dylunio Cadair y Bardd ac adeiladu prototeip.

Gwahoddwch y dysgwyr i wylio'r fideo: Chair Design GCSE DT project (bron i 2 funud – Saesneg yn unig) sy'n dangos y broses ddylunio y mae dysgwr yn ei dilyn. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau ar y sgrin.

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ymchwilio i'r ardal leol. Dylai hyn roi syniadau iddynt ynghylch sut y gallai dyluniad y gadair adlewyrchu'r ardal. Gofynnwch iddynt archwilio Google Maps i ddod o hyd i dirnodau lleol. Yna, gallant fynd allan i chwilio am leoedd o ddiddordeb er mwyn cael ysbrydoliaeth ar gyfer dylunio.

Ar y sgrin nesaf, gofynnir i'r dysgwyr ystyried cynaliadwyedd a chyfrifoldebau amgylcheddol wrth iddynt gynllunio ac adeiladu eu prototeip. Yna, maent yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa ddefnydd(iau) y byddant yn eu defnyddio a sut y gellid siapio neu gerfio'r defnydd(iau) i ddangos eu symbolau a'u nodweddion.

Gofynnwch i'r dysgwyr greu bwrdd naws ('mood board') i ddangos eu syniadau, gan ddefnyddio'r cwestiynau ar y sgrin i arwain eu meddyliau. Yna, gallant ysgrifennu manyleb ddylunio.

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud prototeip, gan werthuso pob cam a newid eu dyluniad ar sail y gwerthusiadau hyn, er mwyn ei wella.

Ar y sgrin olaf, gofynnir i'r dysgwyr werthuso eu prototeip parthed y fanyleb ac i drafod unrhyw addasiadau y gellid eu gwneud i wella'r prototeip a sut y gellid gwneud y newidiadau hyn. Ehangwch y gwerthusiad drwy rannu â grwpiau eraill a gofyn i eraill awgrymu gwelliannau/addasiadau i'r prototeip.

## Dolenni defnyddiol

Er mwyn cynnig safbwyntiau gwahanol a datblygu syniadau'r dysgwyr, gallech ystyried y dolenni hyn sy'n agos at bob Tirwedd Ddynodedig:

**Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn**

- Ynys Môn 2026 - Urdd Gobaith Cymru
- Anglesey's 'mini Stonehenge' celebrates historic role of Druids in Welsh tradition - North Wales Live (Saesneg yn unig)
- Eisteddfod essentials - BBC Cymru Fyw (Saesneg yn unig)

**Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

- This month marks 200 years since Brecon 1822 Eisteddfod - Brecon & Radnor Express (Saesneg yn unig)
- 19. The Brecon Eisteddfod of 1822, by Jonathan Williams 13 September 2022 - Brecknock Society and Museum Friends (Saesneg yn unig)
- Double celebration for Maes star Helena – Brecon & Radnor Express (Saesneg yn unig)
- 2027 - Eisteddfod
- Eisteddfod Aberdâr - yr Eisteddfod 'fodern' gyntaf - Eisteddfod
- National Eisteddfod to be hosted by Pontypridd in 2024 - BBC News (Saesneg yn unig)

**Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

- Eisteddfod Ryngwladol Llangollen - Hafan
- Work starts on Flint's Urdd Eisteddfod site - North Wales Live (Saesneg yn unig)
- Flint workshop helps craft Wrecsam Eisteddfod chair – Deeside.com (Saesneg yn unig)
- 2025 - Eisteddfod
- Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen - Casgliad y Werin Cymru

**Parc Cenedlaethol Eryri**

- Eryri i groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2028 - Urdd Gobaith Cymru
- Watch Eisteddfod Bangor 1971 online - BFI Player
- Gohirio'r Brifwyl dros ganrif yn ôl - Eisteddfod
- Eisteddfod Fawreddog Caernarfon 1862 - Eisteddfod

**Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr**

- Cyffro Eisteddfod Abertawe, 1863 - Eisteddfod
- Eisteddfod Genedlaethol Y Barri 1968 - Casgliad y Werin Cymru
- The Eisteddfod's two legacies to Barry - Glamorgan Star Newspaper (Saesneg yn unig)

**Tirwedd Cenedlaethol Llŷn**

- Royal Welsh National Eisteddfod (1925) - British Pathé - YouTube
- National Eisteddfod fans hail 'brilliant' atmosphere as thousands help get festival underway - North Wales Live (Saesneg yn unig)

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

- 2026 - Eisteddfod
- Eisteddfod Y Garreg Las 2026 - Hwb Cymunedol Sir Benfro
- Pembrokeshire school children join hundreds celebrating Eisteddfod Proclamation – Pembrokeshire CC News (Saesneg yn unig)
- Lluniau Coll Eisteddfod Penfro 1972 - Casgliad y Werin Cymru

**Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy**

- BEHIND THE HEADLINES: What is the Abergavenny Eisteddfod's legacy? - South Wales Argus (Saesneg yn unig)
- Eisteddfod Y Fenni 2024
- THE LONG VIEW: The woman of Gwent who helped revive the National Eisteddfod - South Wales Argus (Saesneg yn unig)
- Casnewydd i gynnal Eisteddfod yr Urdd am y tro cyntaf erioed yn 2027 - Urdd Gobaith Cymru

I gael ystyriaeth ehangach o Eisteddfodau, gallech hefyd ystyried y dolenni hyn:

- Croeso i'r Eisteddfod Genedlaethol - Eisteddfod
- Lleoliadau'r Eisteddfod - Eisteddfod
- Hanes yr Eisteddfod Genedlaethol - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Alternative festivals in Wales - Visit Wales (Saesneg yn unig)
- Welsh festivals - Festivals in Wales, UK - Visit Wales (Saesneg yn unig)
- Eisteddfod - Wicipedia
- Eisteddfod a'r Celfyddydau - Urdd Gobaith Cymru
- Hanesion Hen Eisteddfodau - Eisteddfod
- A brief history of the eisteddfod - OpenLearn - Open University (Saesneg yn unig)
- The Eisteddfod from the air - Casgliad y Werin Cymru

## Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Mae gweithgareddau eraill ar Tirlun sy'n ystyried Eisteddfodau yn cynnwys:

- Sut y gallwn ni groesawu eraill i'n byd?
- Gwyliau
- Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ysbrydoledig
- Eisteddfod – dathlu ein barddoniaeth

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.